CYNGOR CYMUNED LLANFAIR MATHAFARN EITHAF

COFNODION o Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn y Llyfrgell, Benllech ar Nos Lun, 28 Hydref, 2019, am 7.00 o'r gloch.

PRESENNOL Mr D Humphreys, (Cadeirydd), (Benllech B), Mrs W Owen, (Llanbedrgoch), Mr I Williams, (Benllech B), Mrs B E Gall, (Benllech B), Mr G Owen, (Llanbedrgoch), Ms G M Davies, (Benllech A), Mr K F Griffiths, (Benllech A), Mrs C A Hulme, (Benllech B).

44 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y canlynol:-

Mrs S Edwards, (Benllech B), Mr R O Jones, (Benllech A).

45 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Cafwyd datganiadau o ddiddordeb gan Mr G Owen, (Llanbedrgoch) a Mr A Jones, (Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol).

46 COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd Gofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Lun, 23 Medi, 2019.

47 MATERION PRIFFYRDD AMRYWIOL

Derbyniwyd manylion am faterion priffyrdd/llwybrau sydd angen sylw.

(a) Llwybr cyhoeddus A72 (Brynteg) – wedi cael ei dorri a'i dacluso gan Mr Richard Edwards.
(b) Gamfa ar Lwybr cyhoeddus A72 (Brynteg) – mae'r gwaith pren angen sylw. Clerc i drefnu'r gwaith.
(c) Twll dwfn o amgylch caead draen ar y briffordd ger Cae'r Berllan – Clerc wedi cysylltu efo Adran Priffyrdd y Cyngor.
(d) Troad Pant y Saer yn beryglus ar hyn o bryd – Clerc wedi cysylltu efo Adran Priffyrdd y Cyngor.
(e) Wyneb y ffordd o Dy'n-y-Gongl i Farianglas yn fregus iawn – Clerc wedi cysylltu efo Adran Priffyrdd y Cyngor.

TALIADAU A CHYFRIFON

48 BILIAU – Mis Hydref 2019.

TALWYD I:-	SWM (£)
IDB Systems Ltd (Offer Cyfieuthu)	5,735.00
G137 Clwb Peldroed Bro Goronwy	150.00
G137 Benllech Playgroup	100.00
RHODD Marie Curie Nurses, North Wales	50.00
G137 Neuadd Cyn-filwyr, Benllech	300.00
Aled Roberts, Porthllechog	1,850.00
Aled Roberts, Porthllechog	340.00
Aelodaeth SLCC (AJ)	175.00
Dŵr Cymru Toiledau	159.06
Mr D Hughes, Benllech	335.00
TAW - IDB Systems, Ltd, Llandudno	1,147.00
G137 Canolfan Llanbedrgoch 2 (Man chwarae)	12,000.00
Zurich Municipal	139.01
G137 Canolfan Llanbedrgoch 3 (Man Chwarae)	12,000.00
ASL – Copiau	18.00
AJ – Clerc (Costau)	28.20
Ad-daliad i'r Clerc (Post)	35.50
Ad-daliad Clerc (Ffôn)	20.00
Menter Môn	25.00
Edwards Padden	30.00
HMRC (WO)	149.40
Cyflog Arwel Jones	1,170.72
HMRC (AJ)	117.28
Eira Parry	56.00
Awdit Mewnol Cyngor Gwynedd	210.00
Cyflog William Owen	597.71
William Owen (Offer Glanhau'r Toiledau)	14.66

49 CYFRIFON

Cyflwynwyd – cyfrif yn dangos manylion y taliadau a wnaethpwyd gan y Clerc (yn cynnwys taliadau o dan gynllun dirprwyo cyfredol y Cyngor) ym mis Hydref 2019.

PENDERFYNWYD – i nodi'r cyfrif a chytuno'r taliadau.

50 CYLLIDEB Y CYNGOR

Cyflwynwyd – manylion o dderbyniadau a gwariant y Cyngor i gymharu a'i gyllideb am y cyfnod o 1 Ebrill 2019 i ddiwedd Hydref 2020.

PENDERFYNWYD – i nodi a chytuno'r manylion.

MATERION CYFFREDINOL (GOHEBIAETH)

(a) E bost gan Mr Llion Williams (Cyngor Môn) parthed problem dŵr yn sefyll yn Safle Bws, Benllech. Mae wedi rhaglennu'r gwaith er mwyn patchio y safle bws i gael y dŵr i redeg i mewn i draen cyfagos.
(b) E bost gan Ms Lynn Ball (Cyngor Môn) parthed Pwyllgor Safonau – Cwynion a phenderfyniadau OGCC a PDC.
(c) Ychwanegiadau i bolisi yswiriant y Cyngor – ychwanegu Man Chwarae newydd Llanbedrgoch – cost o £139.01 (ad-daliad i'r Cyngor gan Ganoflan Llanbedrgoch wedi ei dderbyn).
(d) E bost gan Ms Rhian W Jones (Cyngor Môn) parthed Cyfarfod Pencampwr Iaith Cynghorau Tref a Chymuned – Mr G Owen fydd yn cynrychioli'r Cyngor.
(e) Copi o Orchymyn Cyngor Sir Ynys Môn – Llwybr Troed rhif 11 yng Nghymuned Llaneugrad – gwyro llwybr cyhoeddus 2019 (dyddiedig 16 Hydref 2019).
(f) E bost gan Ms Tracy Gilmartin-Ward (Un Llais Cymru) parthed Ymgynghoriadau Cynllunio.
(g) Cadarnhâd o daliad Treth ar Werth yn ôl i'r Cyngor am 2018/19 - £2136.89.
(h) Pro-forma Cynghorau Tref a Chymuned – treuliau Cynghorwyr (Un Llais Cymru).
(i) Cafwyd lythyr o ddiolch gan Marie Curie, Gogledd Cymru, am y rhodd a dderbyniwd gan y Cyngor yn ddiweddar (£50).
(j) Derbyniwyd Bwletin Un Llais Cymru – Hydref 2019.

MATERION CYFFREDINOL

(a) E bost gan Mrs Claire Flanagan, Stockport - cais am osod llechen coffawdwriaeth yn ardal y Traeth, Benllech, er cof am ffrind annwyl. Trafodwyd hyn gan yr Aelodau, a PHENDERFYNWYD rhoi caniatad i Mrs Flanagan osod mainc a llechen coffawdwriaeth arni yn ardal y traeth.

(b) Cais Rhodd 137 – Y Ganolfan Llanbdergoch tuag at gynnal a chadw'r Ganolfan (rhodd blynyddol arferol - £300). CANIATAWYD.

(c) Cais Rhodd 137 – Eglwys St Pedr, Llanbedrgoch. (Taliad blynyddol £200). CANIATAWYD.

(d) Cais am RODD tuag at Eisteddfod Môn 2020 – Bro Esgeifiog – CANIATAWYD rhodd o £100 tuag at y coffrau.

(e) Adroddiad Archwiliad Blynyddol y Cyngor gan y BDO – roedd ymateb yr Aelodau'n ffarfiol iawn, a phenderfynwyd i weithredu ar y materion a godwyd yn yr adroddiad.

(f) Cafwyd cais gan y Cadeirydd Mr D Humphreys, i sefydlu Is-bwyllgorau Cyllid a Datblygu Gwasanaethau'r Cyngor. Trafodwyd y mater, a PHENDERFYNWYD sefydlu'r Is-Bwyllgorau o'r newydd. Enwebwyd yr Aelodau canlynol, a derbynniodd pob Aelod:-

IS-BWYLLGOR CYLLID – Mr D Humphreys (Cadeirydd), Mrs S Edwards, Mrs W Owen, Ms G M Davies a Mr R O Jones.

IS-BWYLLGOR DATBLYGU GWASANAETHAU'R CYNGOR – Mr D Humphreys (Cadeirydd), Mrs S Edwards, Mrs C A Hulme, Mrs B E Gall, Mr I Williams a Mr G Owen.

(g) Trafodaeth yn dilyn derbyn gohebiaeth parthed Lês Cae'r Berllan gan Ms Manon E Roberts (Cyfreithwraig). Roedd llawer o drafod ar y mater dyrys ac aneglur yma, a gofynnwyd i Mr I Williams gysylltu â Mr A Jones, Chyfreithiwr Cyngor Môn i gael mwy o wybodaeth ar ran y Cyngor Cymuned.

(h) Trafodaeth yn dilyn Cyfarfod o Is-Bwyllgor Personél y Cyngor, a gynhaliwyd ar 8 Hydref, 2019.

CYTUNWYD mewn egwyddor i gyflogi'r Clerc yn llawn amser o fis Ebrill 2020, gyda'r argymelliad i godi'r oriau i 37 awr yr wythnos, gan nad yw'r oriau presennol yn ddigonnol ar gyfer y dyletswyddau. Bydd Cytundeb newydd yn cael ei ffurfio parthed hyn. CYTUNWYD i alw cyfarfod pellach o'r Is-Bwyllgor Personel gyda Mr I Williams i ymuno hefyd, ar gyfer cwblhau'r trefniadau gweinyddol.

CYNLLUNIO

51 CEISIADAU CYNLLUNIO YN YSTOD MIS HYDREF 2019

PENDERFYNWYD – trafodwyd y Ceisiadau Cynllunio isod gan y Cyngor, a phenderfynwyd:-

1) **Ymgynghoriad Cynllunio – HHP/2019/238 – CANIATAU.**
   Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn 6 Minffordd Estate, Tynygongl.

2) **Ymgynghoriad Cynllunio – RM/2019/9 – GWRTHOD ar sail gor-ddatblygu yn yr ardal**; diffyg arwydd cyflymder; diffyg mannau parcio digonnol
   Cais am faterion a gadwyd yn ôl ar gyfer lleoli 25 o gabanau gwyliau ynghyd â chyfadeiladau hamdden a ffyrdd mynediad cysylltiedig yn Treetops Country Club, Tynygongl.

3) **Ymgynghoriad Cynllunio – FPL/2019/217 – GWRTHOD ar sail gor-ddatblygu yn yr ardal a gormod o nifer; materion mynedfeydd cul a thrafnidiaeth swmpus.**
   Cais llawn ar gyfer codi 29 o anheddau fforddiadwy, adeiladu dwy fynedfa newydd ar gyfer cerbydau a phedair mynedfa amaethyddol newydd, gosod gorsaf bwmpio ynghyd â gwaith tirlunio meddal a chaled ar dir ger Craig y Don Estate a Cherry Tree Close, Benllech.

Er Gwybodaeth - ***CANIATAWYD*** y Ceisiadau Cynllunio isod gan Gyngor Ynys Môn:-

CYFEIRIAD	RHIF CAIS
29 Lôn Twrcelyn, Tynygongl.	HHP/2019/219
Ynys Isaf, Brynteg.	FPL/2019/202
Ty'n Pwll, Benllech.	VAR/2019/5
Min y Ffrwd, Brynteg.	VAR/2019/30
Waen Dirion, Benllech.	FPL/2019/79
Tir gyferbyn â Maes Teg, Brynteg.	FPL/2019/113
Rhosboeth, Ffrodd Amlwch, Benllech.	FPL/2019/190 a 192

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.30 o'r gloch.

LLANFAIR MATHAFARN EITHAF COMMUNITY COUNCIL

MINUTES of the Councils meeting held at The Library, Benllech on Monday, 28th October, 2019, at 7.00 p.m.

PRESENT Mr D Humphreys, (Cadeirydd), (Benllech B), Mrs W Owen, (Llanbedrgoch), Mr I Williams, (Benllech B), Mrs B E Gall, (Benllech B), Mr G Owen, (Llanbedrgoch), Ms G M Davies, (Benllech A), Mr K F Griffiths, (Benllech A), Mrs C A Hulme, (Benllech B).

44 APOLOGIES

Apologies were received by the following:- Mrs S Edwards (Benllech B) and Mr R O Jones, (Benllech A).

45 DECLARATIONS OF INTEREST

A declaration of interest was made by Mr G Owen (Llanbedrgoch) and Mr A Jones (Clerk and Responsible Financial Officer).

46 MINUTES

The Chairman signed the Minutes, being a true record of the Meeting of the Council held on the 23rd September 2019.

47 FOOTPATHS, ROADS AND FOOTWAYS

The following information was received by the Members which need attention.

(a) Public Footpath A72 (Brynteg) has been cut and made good by Mr Richard Edwards.
(b) Woodwork on the stile on Public Footpath A72 (Brynteg) is need of attention. The Clerk will organise the work to be carried out.
(c) Manhole cover (and surrounding area) on the road nearby Cae'r Berllan needs to be repaired - Clerk has reported it to the Highways Department in Anglesey County Coucil.
(d) The road turning at Pant y Saer also needs attention. The Clerk has reported it to the Highways Department in Anglesey County Council.
(e) The road surface from Ty'n-y-Gongl to Marianglas also needs attention. The Clerk has reported it to the Highways Department in Anglesey County Council

PAYMENTS AND ACCOUNTS

48 BILLS – October 2019.

PAID TO:-	SUM (£)
IDB Systems Ltd (Translating equipment)	5,735.00
G137 Bro Goronwy Football Club	150.00
G137 Benllech Playgroup	100.00
Donation Marie Curie Nurses, North Wales	50.00
G137 Ex-service-mens Hall, Benllech	300.00
Aled Roberts, Bull Bay	1,850.00
Aled Roberts, Bull Bay	340.00
SLCC Membership (AJ)	175.00
Welsh Water	159.06
Mr D Hughes, Benllech	335.00
VAT- IDB Systems, Ltd, Llandudno	1,147.00
G137 Canolfan Llanbedrgoch 2 (Playarea)	12,000.00
Zurich Municipal	139.01
G137 Canolfan Llanbedrgoch 3 Playarea)	12,000.00
ASL – Copies	18.00
AJ – Clerk (Travelling)	28.20
Clerk (Postage)	35.50
Clerc (Telephone)	20.00
Menter Môn	25.00
Edwards Padden	30.00
HMRC (WO)	149.40
Wages Arwel Jones	1,170.72
HMRC (AJ)	117.28
Eira Parry	56.00
Internal Audit Gwynedd Council	210.00
Wages William Owen	597.71
William Owen (Toilet Cleaning Products)	14.66

49 ACCOUNTS

Submitted – account showing details of payments made by the Clerk (including those made in accordance with the Councils current scheme of Delegation) in October 2019.

RESOLVED – to note the account and agree the payments.

50 COUNCILS BUDGET

Submitted – the details of the Council's receipts and payments as compared with its budget for the period from 1 April 2019 to the end of October 2020.

RESOLVED – to note and agree the details

GENERAL MATTERS (CORRESPONDENCE)

(a) E mail from Mr Llion Williams (Isle of Anglesey Council) regarding 'standing water' at the Bus Stop, Benllech. A works programme has been instigated to enable the water to flow into the close-by drains.
(b) E mail from Ms Lynn Ball (Isle of Anglesey Council) regarding Standards Committee – Complaints to the PSOW and the PSOW and APW's decisions.
(c) Adjustments to the Council's Insurance Policy – add on the new Play Area at Llanbedrgoch – cost of £139.01 (reimbursed to the Council by Llanbedrgoch Community Centre).
(d) E mail from Ms Rhian Jones (Isle of Anglesey Council) regarding the Welsh Champions Meeting – Council representative is Mr G Owen.
(e) Copy of the Isle of Anglesey Council's Public Path Diversion Order 2019 – footpath No 11 in the community of Llaneugrad (dated 16th October 2019).
(f) E mail from Ms Tracy Gilmartin-Ward regarding Planning Consultations.
(g) Conformation of the VAT Returns payments for 2018/19 – £2136.89.
(h) Town and Community Councils Documenting Pro-forma Councillors Allowances (One Voice Wales).
(i) A letter of appreciation from Marie Curie Nurses, North Wales for the Council's Donation of £50.
(j) One Voice Wales Bulletin for October 2019.

GENERAL MATTERS

(a) E mail from Mrs Claire Flanagan, Stockport – application for erecting a commemorative plaque and bench on Benllech Beach, in memory of a dear friend. The Members AGREED to the request.

(b) G173 Application – The Community Centre Llanbedrgoch towards the running costs (usual annual donation of £300). The Members AGREED.

(c) G137 Appication – St Peter's Church, Llanbedrgoch. (Annual sum of £200).

(d) Application for a Donation towards the Anglesey Area Eisteddfod – Bro Esgeifiog 2020. The Members AGREED to donate the sum of a £100.

(e) The Annual Community Council's Audit Report by the BDO. The Members responded very favourably, and will act upon the issues raised.

(f) A Request by the Chairman Mr D Humphreys, to establish Finance and Council Development Services Sub-Committees. The matter was discussed and AGREED by the Members. The following Members were elected and AGREED to serve on the Sub-Committees:-

FINANCE SUB-COMMITTEE – Mr D Humphreys (Chairman), Mrs S Edwards, Mrs W Owen, Ms G M Davies and Mr R O Jones.

COUNCIL DEVELOPMENT SERVICES SUB- COMMITTEE – Mr D Humphreys (Chairman), Mrs S Edwards, Mrs C A Hulme, Mrs B E Gall, Mr I Williams and Mr G Owen.

(g) Correspondence regarding the Lease of Cae'r Berllan, Amlwch Road, Benllech (received by Ms Manon E Roberts (Solicitor) was discussed with numerous unclear issues raised. Mr I Williams was requested to contact Mr A Jones, Anglesey Council's Solicitor to on behalf of the Community Council, in order to rectify matters.

(h) The Members discuss the matters arising following a recent Personnel Sub-Committee, held on 8th October, 2019.

AGREED – in principal to employ the Clerk on a full-time basis form April 2020, with the recommendation of increasing the working hours to 37 per week, due to increased work-load and various other duties. It was also AGREED to convene a Personnel Sub-Committee, (with the addition of Mr I Williams to join the committee), in order to finalise administrative arrangements.

PLANNING

51 APPLICATIONS RECEIVED DURING OCTOBER 2019

RESOLVED – the following Planning Applications were discussed by the Council:-

1) **Planning Consultation – HHP/2019/238 – APPROVED.**

   Full application for alterations and extensions at 6 Minffordd Estate, Tynygongl.

2) **Planning Consultation – RM/2019/9 – REJECTED due to over-development in the area; no speed restriction signs; inadequate parking facilities.**

   Application for reserved matters for the the siting of 25 holiday chalets together with a leisure complex and associated access roads at Treetops Country Club, Ty'n-y-gongl.

3) **Planning Consultation – FPL/2019/217 – REJECTED due to over-development of housing in the area; inadequate access to area; heavy traffic.**

   Full planning application for the erection of 29 affordable dwellings, construction of two new vehicular and 4 new agricultural accesses, installation of a pumping station together with soft and hard landscaping on land adjacent to Craig y Don Estate & Cherry Tree Close, Benllech.

For your information - The following Planning Appications were ***GRANTED*** by Isle of Anglesey County Council.

ADDRESS	APPLICATION REFERENCE
29 Lôn Twrcelyn, Tynygongl.	HHP/2019/219
Ynys Isaf, Brynteg.	FPL/2019/202
Ty'n Pwll, Benllech.	VAR/2019/5
Min y Ffrwd, Brynteg.	VAR/2019/30
Waen Dirion, Benllech.	FPL/2019/79
Land adjacent to Maes Teg, Brynteg.	FPL/2019/113
Rhosboeth, Ffrodd Amlwch, Benllech.	FPL/2019/190 & 192

The meeting concluded at 8.30pm.